

Penderfyniad ynghylch teledu lleol: That's TV Swansea Bay yn newid ei gais

Cefndir

Bay TV Swansea Limited (sy'n darlledu fel "That's TV Swansea Bay") sy'n dal y drwydded gwasanaeth rhaglenni teledu digidol lleol ("trwydded L-DTPS" neu "y Drwydded") ar gyfer Abertawe. Bydd yn rhaid i'r gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu gan ddeiliad y drwydded hon gyflawni dyletswyddau penodol o ran cynnwys sydd wedi'u nodi yn y Drwydded, sef ymrwymïadau o ran rhaglenni.

Ar 8 Rhagfyr 2017, cyflwynodd deiliad y drwydded gais i Ofcom yn gofyn am gael amrywio'r ymrwymïadau rhaglenni yn y Drwydded. Mae'r manylion wedi'u nodi yma (mae'r newidiadau yn ymddangos mewn **ffont coch**).

Ymrwymïadau Rhaglenni That's TV Swansea Bay

Cynnwys rhaglenni

Yn y flwyddyn gyntaf, bydd y gwasanaeth yn cael ei ddarlledu yn ystod yr wythnos, ond ddim ar benwythnosau. Bydd y pwyslais ar y cychwyn ar newyddion byw, a byddwn yn darparu o leiaf dair awr o newyddion y dydd o'r cychwyn cyntaf. Bydd y gwasanaeth hefyd yn darlledu rhaglenni nodweddd sydd wedi'u gwneud yn lleol ac sy'n rhoi sylw i amrywiaeth eang o bynciau, gan gynnwys hanes lleol, y celfyddydau a chwaraeon. Ar nos Wener, bydd y gwasanaeth yn darparu rhaglen chwaraeon awr o hyd a fydd yn edrych ymlaen at ddigwyddiadau'r penwythnos, a rhaglen chwaraeon arall awr o hyd ar y nos Lun yn bwrw golwg yn ôl dros y penwythnos. Yn yr ail flwyddyn, bydd y gwasanaeth yn ychwanegu rhaglenni trafod a slotiau ychwanegol ar gyfer rhaglenni nodweddd, gan ymestyn cyfanswm yr oriau. Erbyn y drydedd flwyddyn bydd y gwasanaeth yn darlledu saith diwrnod yr wythnos, a bydd yn ychwanegu mwy o raglenni adloniant ac sy'n rhoi sylw i'r celfyddydau.

Bydd y gwasanaeth yn:

- adlewyrchu'n aml ddiddordebau a phryderon pobl sy'n byw neu'n gweithio yn Ardal y Drwydded;
- darparu llawer o newyddion lleol a newyddion o'r byd chwaraeon (gan gynnwys is-genres fel gwybodaeth a nodwedddion)
- cynnwys rhaglenni materion cyfoes;
- rhoi cefnogaeth briodol i'r sector gwirfoddol lleol drwy roi sylw i weithgareddau lleol; ac
- yn cynnig pob math o gynnwys a fydd weithiau'n rhoi sylw i faterion sydd o ddiddordeb cyffredin, fel hanes, y celfyddydau ac adloniant;
- cynnwys bwletinau newyddion o leiaf bum diwrnod yr wythnos fel arfer.

Oriau o raglenni lleol bob dydd/wythnos	<u>Y flwyddyn gyntaf</u>	<u>Yr ail flwyddyn</u>	<u>O'r drydedd flwyddyn ymlaen</u>
Darllediad cyntaf:	17.5 awr	20 -17.5 awr yr wythnos	25 -17.5 awr yr wythnos
Ailddarllediadau:	32 awr	48 -32 awr yr wythnos	60 -32 awr yr wythnos
Oriau o raglenni lleol bob dydd/wythnos yn ystod oriau brig (18.00-22.30)	<u>Y flwyddyn gyntaf</u>	<u>Yr ail flwyddyn</u>	<u>O'r drydedd flwyddyn ymlaen</u>
Darllediad cyntaf:	10 awr	12 -10 awr yr wythnos	15 -10 awr yr wythnos
Ailddarllediadau:	12.5 awr	10.5 -7.5 awr yr wythnos	7.5 awr yr wythnos
Oriau ac amserlenni rhaglenni materion cyfoes a newyddion lleol	<u>Y flwyddyn gyntaf</u>	<u>Yr ail flwyddyn</u>	<u>O'r drydedd flwyddyn ymlaen</u>
Darllediad cyntaf:	O ddydd Llun i ddydd Gwener: Rhaglen fore sy'n seiliedig ar 5 o fwletinau 15 munud sy'n cael eu hailddarlledu, gyda newyddion am y tywydd a'r traffig rhwng y bwletinau – 2 awr i gyd Amser cinio – bwletin 15 munud Newyddion gyda'r nos – Awr Cyfanswm – 16 awr a 15 munud yr wythnos (3 awr a 15 munud y dydd)	O ddydd Llun i ddydd Gwener: Rhaglen fore sy'n seiliedig ar 5 o fwletinau 15 munud sy'n cael eu hailddarlledu, gyda newyddion am y tywydd a'r traffig rhwng y bwletinau – 2 awr i gyd Amser cinio – bwletin 15 munud Newyddion gyda'r nos – Awr Cyfanswm 16 awr a 15 munud awr-yr wythnos, yn cynnwys 5 awr gyda'r nos (3 awr a 15 munud y dydd.	O ddydd Llun i ddydd Gwener: Rhaglen fore sy'n seiliedig ar 5 o fwletinau 15 munud sy'n cael eu hailddarlledu, gyda newyddion am y tywydd a'r traffig rhwng y bwletinau – 2 awr i gyd Amser cinio – bwletin 15 munud Newyddion gyda'r nos – Awr Cyfanswm – 3 awr a 15 munud y dydd. O'r drydedd flwyddyn ymlaen Newyddion ar benwythnos – 2 fwletin 15 munud Cyfanswm 17 awr a 15 munud awr yr wythnos

			16 awr a 15 munud yr wythnos, yn cynnwys 5 awr gyda'r nos
Ailddarllediadau:	Dim	Dim	Dim

Fframwaith statudol

O dan Ddeddf Darlledu 1996 (“Deddf 1996”), mae’n rhaid i drwyddedau ar gyfer gwasanaethau rhaglenni teledu digidol lleol (“L-DTPS”) gynnwys amodau sydd, ym marn Ofcom, yn ymddangos yn briodol er mwyn sicrhau – ymysg pethau eraill – fod cymeriad y gwasanaeth trwyddedig, fel y cynigir gan y sawl sy’n dal y drwydded, yn cael ei gynnal drwy gydol oes y drwydded.¹ Mae’r gofyniad hwn yn cael ei adlewyrchu yn Amod 5(1) y Drwydded, a’r ymrwymïadau o ran rhaglenni sydd wedi’u nodi yn y Drwydded. Mae gan Ofcom y pŵer i amrywio amodau trwydded drwy hysbysiad.²

Yn ôl y fframwaith statudol, gall yr amodau mewn trwydded L-DTPS awdurdodi Ofcom i gytuno i wyro oddi wrth gymeriad y gwasanaeth os bydd pedwar sail statudol yn cael eu bodloni, ac mae’n nodi gofyniad gweithdrefnol i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus cyn y bydd Ofcom yn gallu penderfynu cytuno i wyro oddi wrth gymeriad y gwasanaeth.³ Dim ond pan fydd y newid dan sylw yn arwain at wyro oddi wrth gymeriad y gwasanaeth y bydd y gofynion hyn yn berthnasol.

Penderfyniad Ofcom

Mae Bwrdd Ofcom wedi dirprwyo’r gwaith o gyflawni rhai o’i swyddogaethau darlledu i nifer o uwch swyddogion gweithredol Ofcom yn y Grŵp Polisi Cyfryngau a Chynnwys a’r Grŵp Cyfreithiol. Mae gan yr unigolion hynny – ar eu pen eu hunain neu gyda’i gilydd – gyfrifoldeb dros wneud penderfyniadau ynghylch dyfarnu trwyddedau L-DTPS, ac ynghylch cynigion i amrywio’r trwyddedau hynny.

Ar 28 Mawrth 2018 bu Cyfarwyddwr Safonau Cynnwys, Trwyddedu a Gorfodi Ofcom, a Phennaeth Trwyddedu Darlledu Ofcom (“y rheini sy’n penderfynu”) yn ystyried y cais amrywio.

Yn eu barn nhw, ni fyddai’r bwriad i gynnig llai o raglenni lleol yn gyffredinol a llai o gynnwys sy’n rhoi sylw i faterion cyfoes a newyddion lleol – y bydd yn rhaid i That’s TV Swansea Bay eu darparu – yn golygu ei fod yn gwyro oddi wrth gymeriad y gwasanaeth at ei gilydd. Gan fod y gwasanaeth bob amser wedi rhoi pwyslais ar ddarparu rhaglenni materion cyfoes a newyddion lleol, roedden nhw o’r farn y byddai lleihau faint o raglenni lleol sy’n cael eu darlledu am y tro cyntaf yn cael llai o effaith ar gymeriad y gwasanaeth na lleihau faint o raglenni materion cyfoes a newyddion sy’n cael eu darlledu am y tro cyntaf bob wythnos. Yn y cyd-destun hwn, roedd y rheini sy’n penderfynu yn fodlon na fyddai cynnig awr yn llai yr wythnos o gynnwys sy’n rhoi sylw i faterion cyfoes a newyddion lleol (o 17 awr a 15 munud i 16 awr a 15 munud) yn cael llawer o effaith ar y gwasanaeth.

O ran y newidiadau a gynigir i’r ymrwymïadau ansoddol o ran rhaglenni, roedd y rheini sy’n penderfynu o’r farn mai gwneud gofynion y drwydded yn llai cyfarwyddol yw pwrpas y newidiadau, yn hytrach na newid natur y gwasanaeth. Er enghraifft, o ran darparu newyddion am chwaraeon, mae’r gofyniad blaenorol (penodol iawn) yn y drwydded i ddarlledu rhaglenni chwaraeon awr o hyd ar ddydd Llun a dydd Gwener wedi cael ei ddisodli gan ofyniad cyffredinol i “roi cryn sylw i chwaraeon a newyddion lleol.”

¹ Adran 19(3A)(c) o Ddeddf 1996 fel y mae wedi’i haddasu gan Orchymyn Gwasanaethau Rhaglenni Teledu Lleol 2012

² Adran 4(4) o Ddeddf 1996

³ Adran 19 o Ddeddf 1996 fel y mae wedi’i haddasu gan Orchymyn Gwasanaethau Rhaglenni Teledu Lleol 2012

Ar ôl pwyso a mesur yn ofalus, roedd y rheini sy'n penderfynu o'r farn y byddai cymeriad cyffredinol y gwasanaeth yn dal i gael ei gynnal ar ôl y cais amrywio. Yn unol â hynny, ar 28 Mawrth 2018, penderfynodd y rheini sy'n penderfynu na fyddai'r amrywiad dan sylw yn golygu gwyro oddi wrth gymeriad y gwasanaeth, ac y dylid ei ganiatáu.